

Adroddiad Blynyddol Panel
Cyngori ar Amaethyddiaeth
Cymru

Ebrill 2017 – Mawrth 2018



Rhagair gan y Cadeirydd

Mae Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru wedi bod yn gweithio i ystyried lefelau isafswm tâl ac amodau cyflogi gweithwyr eraill o fewn y sector amaethyddol yng Nghymru. Mae buddiannau aelodau annibynnol a chynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr wedi cyfrannu'n uniongyrchol at orchmynion cyflogau amaethyddol a gyflwynwyd hyd yn hyn. Mae'r Panel yn astudio darpariaethau'n ofalus i sicrhau eu bod yn darparu'r cymorth gorau posibl ar gyfer twf yn y diwydiant.

Mae rôl y Panel wrth gynghori Gweinidogion Cymru ynglŷn â sut orau i nodi'r sgiliau angenrheidiol yr un mor bwysig. Mae gweithlu gyda'r sgiliau priodol, ar bob lefel gwaith, gan gynnwys rheoli'r busnes a'r fferm, gweithwyr arbenigol ac anarbenigol fel ei gilydd, yn allweddol wrth sicrhau bod y diwydiant yn parhau'n wydn ac yn gallu wynebu heriau sy'n codi yn ddidrafferth. Mae'r Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant yn gweithio tuag at annog datblygiad gyrfa ac yn casglu'r data sydd ei angen er mwyn nodi'r ffordd orau ymlaen yng Nghymru.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
Sefydlu'r Panel	
Cylch gwaith y Panel	

2. Gweithrediad y Panel	4
Aelodaeth	
Rôl yr aelodau	5
Swyddogaethau'r Panel	
Cefnogi gweithrediad y Panel	5
Gorfodi Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol	6

3. Cyfarfodydd y Panel	6
-------------------------------	---

4. Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017	10
Canllawiau	11
Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol yn y dyfodol	

5. Yr Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant	11
--	----

6. Crynodeb o faterion sy'n effeithio ar amaethyddiaeth	12
--	----

7. Adolygiad o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014	
Adolygiad Llywodraeth Cymru o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014	12
Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adolygiad	

Atodiad 1	
Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru – Aelodaeth	14

Atodiad 2	
Dolenni i ddeddfwriaeth	16

1. **Cyflwyniad**

1.1 Dyma'r ail Adroddiad Blynyddol ar gynnydd a gweithrediad Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru. Mae'n cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2018.

Cylch gwaith y Panel

1.2 Sefydlwyd Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru (y Panel) o dan Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014. Daeth Gorchymyn Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 Rhif 255 (Cy.89) i rym ar 1 Ebrill 2016.

Mae gan y Panel gylch gwaith statudol i wneud y canlynol:

- hyrwyddo gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth
- drafftio Gorchymynion Cyflogau Amaethyddol yn nodi isafswm cyfraddau cyflog a rhai lwfansau, ymgynghori ar y cynigion hyn, a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo
- cynghori Gweinidogion Cymru ar faterion yn ymwneud â'r sector amaethyddol yng Nghymru fel sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru Gall Gweinidogion Cymru bennu swyddogaethau pellach i'r Panel.

1.3 Gellir gorfodi Gorchymynion Cyflogau'n gyfreithiol gan Lywodraeth Cymru, sydd â dyletswydd hefyd i ymchwilio i gwynion a godwyd ynghylch diffyg cydymffurfio â'r darpariaethau.

2. Gweithrediad Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru (y Panel)

2.1 Sefydlwyd y Panel gan Orchymyn Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016 (Gorchymyn y Panel) ar 1 Ebrill 2016. Roedd y Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel gyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn.

Aelodaeth

2.2 Mae'n ofynnol yn ôl Deddf 2014 i aelodaeth y Panel adlewyrchu buddiannau'r sector amaethyddol yn ddigonol ac i'r aelodau feddu ar y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

2.3 Mae'r Panel yn cynnwys saith aelod. Mae cyfansoddiad y Panel yn seiliedig ar ganlyniad ymarfer ymgynghori cyhoeddus a mewnbwn gan randdeiliaid allweddol. Mae'r Panel yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (NFU Cymru), dau gynrychiolydd gweithwyr o Unite, a thri aelod annibynnol (yn cynnwys y Cadeirydd) sydd ag

arbenigedd perthnasol.

2.4 Dewiswyd yr aelodau annibynnol drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus a'u penodi gan Weinidogion Cymru. Pedair blynedd yw tymor aelodau annibynnol yn y swydd, gyda'r posibilrwydd o ailbenodi.

2.5 Penodir aelodau cynrychioliadol am dair blynedd yn y lle cyntaf a gellir eu henwebu i'w hailbenodi mor aml ag y dymuna'r sefydliadau a gynrychiolant. Enwebir yr aelodau cynrychioliadol gan y sefydliadau a gynrychiolir ganddynt. Mae gan NFU Cymru, FUW ac Unite cynrychiolaeth warantedig ar y Panel er mwyn sicrhau cydbwysedd o ran buddiannau. Rhestrir yr aelodau presennol yn **Atodiad 1**.

Rôl yr Aelodau

2.6 Rôl yr aelodau cynrychioliadol yw defnyddio'u harbenigedd wrth gynrychioli buddiannau eu haelodau ar y materion allweddol yn nhrefodaethau'r Panel a chynghori ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

2.7 Prif rôl aelodau annibynnol y Panel yw defnyddio'u barn arbenigol mewn trafodaethau ar faterion allweddol a chynghori ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant.

2.8 Mae gan holl aelodau'r Panel gyfrifoldeb allweddol i helpu i sicrhau y cyflwynir Gorchymynion drafft teg a rhesymol ar faterion sy'n ymwneud â lefelau isafswm cyflog a thelerau ac amodau perthnasol ar gyfer gweithwyr amaethyddol yng Nghymru fel y'u diffinnir yn Neddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.

Swyddogaethau Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (y Panel)

2.9 Yn unol â Deddf 2014, mae swyddogaethau'r Panel yn cynnwys:

- Hyrwyddo gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth
- Paratoi gorchymynion cyflogau amaethyddol ar ffurf ddrafft, gan ymgynghori ar y gorchymynion hyn a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo
- Darparu cyngor ar faterion yn unol â gofynion Gweinidogion Cymru

2.10 Yn unol â Gorchymyn y Panel, mae'r Panel yn gyfrifol am wneud y canlynol:

- penderfynu ar ei weithdrefnau ei hun a'i is-bwyllgorau
- sefydlu is-bwyllgorau eraill, yn ychwanegol at yr Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant, fel y bo'n briodol
- cael cyngor arbenigol, fel yr ystyrir yn angenrheidiol

Cefnogi gweithrediad y Panel

2.11 Cefnogir gweithrediad y Panel gan Reolwr Panel a gyflogir gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae cwmni cyfreithiol allanol wedi'i benodi i gynghori'r Panel ynghylch unrhyw faterion cyfreithiol sy'n codi, gan gynnwys drafftio gorchymynion cyflogau amaethyddol. Mae Rheolwr y Panel yn hwyluso cyfarfodydd ac yn paratoi papurau yn ôl y gofyn. Mae gwefan y Panel yn blatfform o bell sy'n cael ei gynnal

gan Lywodraeth Cymru a'i reoli gan Reolwr y Panel. <https://beta.llyw.cymru/y-panel-cyngori-ar-amaethyddiaeth-cymru? ga=2.71881619.163146836.1526482720-1745072684.1523287952>

2.12 Nid oes gan y Panel unrhyw gyllideb ei hun, gan ddefnyddio arian a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae cyllid cyfyngedig ar gael i gomisiynu astudiaethau a gwaith ymchwil ar feysydd penodol y bydd y Panel yn dymuno eu hystyried yn ei broses o wneud penderfyniadau. Mae angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer cael unrhyw gyngor neu wybodaeth a all arwain at gostau.

2.13 Mae'r gwariant ar gyfer ail flwyddyn o weithredu'r Panel wedi dod i gyfanswm o £60,000, sydd wedi cynnwys treuliau'r Panel, cost cyngor cyfreithiol, a'r ymchwil a gomisiynwyd gan y Panel.

2.14 Dylai unrhyw ymholiadau, cwynion neu bryderon am y Panel Amaethyddiaeth neu'r Gorchmynion gael eu cyflwyno i Reolwr y Panel. Bydd materion yn cael eu trin yn hollol gyfrinachol. Mae manylion cyswllt Rheolwr y Panel wedi'u cynnwys yn **Atodiad 1**.

Gorfodi Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol

2.15 Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwestiynau neu gwynion am amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio â Gorchmynion Cyflogau. Mae swyddogion y llywodraeth yn ymdrin ag ymholiadau a chwynion gan gyflogwyr a gweithwyr. Nid oes gan y Panel gylch gwaith uniongyrchol ar orfodi.

2.16 Gellir cyflwyno cwestiynau a chwynion gan ddefnyddio'r ffurflen ar y ddolen sydd ynghlwm:
https://secure.gov.wales/contact_us/makeacomplaint/complaintform/?jsessionid=AB5B75D561488EC8926D6ED838C06301?skip=1&lang=cy
neu drwy ysgrifennu at:

Gorfodi Cyflogau Amaethyddol
Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LD1 5HA

3. Cyfarfodydd y Panel

3.1 Yn ystod ail flwyddyn ei weithrediad, gwnaeth y Panel gyfarfod ym mis Mai, mis Medi a mis Tachwedd yn 2017 ac ym mis Chwefror 2018. Cyhoeddir crynodebau o'r cyfarfodydd ar wefan y Panel. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn crynhoi gweithrediad y Panel (1 Ebrill – 31 Mawrth), ynghyd â'r adroddiad cyntaf, wedi'i

gyhoeddi yno hefyd.

https://beta.llyw.cymru/y-panel-cynghori-ar-amaethyddiaeth-cymru?_ga=2.172096291.163146836.1526482720-1745072684.1523287952.

Cynhaliwyd y **pedwerydd cyfarfod** ar 7 Mai 2017.

3.2 Trafododd y Panel ddatblygiad Gorchymyn 2017. Teimlwyd bod angen rhoi amserlen digwyddiadau a chyfarfodydd fwy cadarn ar waith i sicrhau bod y broses yn mynd rhagddi yn fwy diffwdan yn y dyfodol. Roedd y Panel yn dymuno i'r Gorchymyn gael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl.

3.3 Gwnaethant drafod argaeledd **Gwybodaeth am y Farchnad Lafur** ar gyfer y sector amaethyddol am eu bod eisiau llywio eu hargymhellion. Gwnaethant drafod beth oedd angen ei wneud i gasglu data cywir ac asesu'r buddion o gasglu samplau o faint digonol ar gyfer ymchwil. Penderfynwyd y byddai mynd at gymaint o fusnesau ag y bo'n bosibl yn briodol. Byddai manyleb ar gyfer ymchwil briodol yn deillio o'u trafodaeth ar y cyd â'r Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant.

3.4 Roedd y Panel yn awyddus i wella **datblygiad proffesiynol parhaus** yn y diwydiant. Roeddent yn teimlo y byddai datblygiad proffesiynol parhaus a chynllun datblygiad personol yn darparu dull cadarn o gofnodi cyflawniadau a fyddai o fudd i weithwyr. Roeddent yn haeru y dylid rhoi strwythur hyfforddiant a datblygiad mwy priodol ar waith i annog gweithwyr a denu hwyrddyfodiaid. Dadleuwyd bod angen cymhelliant ar gyflogwyr i gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus. Cytunwyd y byddai ymgysylltu â 'Chynfyfyrwyr yr Academi Amaethyddol' yn fuddiol er mwyn llywio trafodaethau'r Panel.

3.5 Gyda'r DU yn gadael yr UE, roedd y Panel o'r farn fod y diwydiant yng Nghymru yn wynebu peth ansicrwydd o ran sefydlu cytundebau masnach rhyngwladol newydd, amrywiadau o ran lefelau arian cyfredol, a'r amgylchedd cyffredinol ar gyfer polisi amaethyddol. Roedd y Panel o'r farn y bydd angen strategaeth er mwyn mynd rhagddo gyda gweithlu a hyfforddwyd yn dda a diwydiant cynaliadwy.

3.6 Yn ystod y flwyddyn hon, dechreuodd y Panel ystyried beth ellid ei wneud i symleiddio a moderneiddio gorchymynion cyflogau amaethyddol wrth gynnal y cymhelliant i ddatblygu gyrfaoedd gwerth chweil yn y diwydiant a'r rhwyd ddiogelwch ariannol taliadau isafswm ar gyfer gweithwyr amaethyddol a ddarperir gan y gorchymynion. Byddai hyn yn cynnwys ailymweld â'r trefniadau i sicrhau bod y defnydd gorau a mwyaf effeithiol yn cael ei wneud o gofnodi, monitro a chynllunio datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelodd y Panel yr angen i gasglu ystadegau ar y diwydiant a phroffil y farchnad lafur er mwyn llywio eu gwaith. Gwnaeth aelodau'r Panel ymrwymo i ystyried y materion hyn yn fanwl a gwneud argymhellion yn 2018.

Cynhaliwyd y pumed cyfarfod ar 19 Medi 2017.

3.7 Mae Adran 2 (2) (b) yn gosod dyletswydd ar y Panel i baratoi gorchymynion cyflogau amaethyddol ar ffurf ddrafft ac ymgynghori ar orchymynion o'r fath.



Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar yr angen posibl ar gyfer diwygio Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017.

3.8 Roedd y Panel yn bryderus am arafwch y cynnydd tuag at wneud Gorchymyn 2017, yr oeddent wedi bwriadu i fod ar waith ym mis Ebrill, ac roeddent yn teimlo'n gryf fod yr amser a gymerwyd yn rhy hir. Roeddent yn dymuno i bawb a oedd yn rhan o'r broses archwilio beth oedd wedi digwydd wrth ddod â'r gorchymyn cyntaf hwn i gyfraith a cheisio ffyrdd o wneud y broses yn llai beichus yn y dyfodol.

3.9 Gwnaethant roi eu safbwyntiau ystyriol ac arbenigol ar lefelau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, perfformiad economaidd diweddar y diwydiant, ac amodau cyffredinol eraill. Gwnaeth cynrychiolwyr yr undebau ffermio yng Nghymru ac Unite the Union gyflwyno eu safbwyntiau manwl ar gyfer craffu arnynt gan y Panel. Dilynwyd hynny gan drafodaethau cyn i'r Panel benderfynu drwy bleidlais fwyafrifol i gynnig newidiadau i gynyddu cyfraddau'r isafswm cyflog amaethyddol a lwfansau penodol heb awgrymu unrhyw newidiadau eraill.

3.10 Cafodd cynghorwyr cyfreithiol y Panel, cwmni cyfreithiol annibynnol sy'n delio â chyfraith cyflogaeth, eu cynnwys fel y gellid ceisio eu cyngor ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol a godir wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt. Roedd hyn hefyd yn sicrhau eu bod yn llawn ymwybodol o'r meddwl a fu y tu ôl i bob pwynt a wnaed er mwyn llywio drafftio gorchymyn cyflogau arfaethedig 2018.

3.11 Gwnaeth y Panel gynnal ymgynghoriad a dargedwyd ar eu cynigion. Gofynnwyd i rwydwaith eang o fuddiannau a sefydliadau am eu barn ar y cynigion yn ystod mis Hydref 2017. Rhoddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan y Panel hefyd.

Cynhaliwyd y chweched cyfarfod ar 9 Tachwedd 2017.

3.12 Trafododd y Panel y cynigion a'r broses ymgynghori. Gwnaethant benderfynu yn y dyfodol eu bod yn dymuno ymgysylltu'n fwy manwl â'r cyfryngau cenedlaethol a lleol hefyd er mwyn archwilio pa lwybrau cyfathrebu eraill y gellid gwneud mwy o ddefnydd ohonynt, fel eu rhwydweithiau a'u haelodaeth eu hunain.

3.13 Penderfynodd y Panel drwy bleidlais fwyafrifol i gadarnhau'r cynigion a gyflwynwyd ar gyfer gwelliannau i Orchymyn Cyflogau 2017. Roedd aelodau'r Panel eisiau bod yn fwy sicr o gyfraddau'r Isafswm Cenedlaethol / Cyflog Byw nag yr oeddent a gwnaethant awgrymu y gallai'r cynigion newid rywfaint pan fyddai'r lefelau terfynol yn dod yn hysbys. Gwelsant nad oedd amseriad cyhoeddiadau o'r fath a'r broses o graffu ar gynigion tuag at wneud rheoliadau yn hawdd eu cydgordio. Cyfeiriwyd at y Cyflog Byw Gwirioneddol gan Unite fel dyhead ar gyfer y tymor canolig. Gwnaeth y Panel wedyn ofyn i'w gynghorwyr cyfreithiol ddrafftio Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol ar gyfer 2018 a oedd yn cynnwys eu cynigion.

3.14 Yn dilyn y cyfarfod, gwnaeth Cadeirydd y Panel gyflwyno Gorchymyn drafft yn amlinellu cynigion y Panel i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru. Y bwriad oedd cael gorchymyn mewn grym ar 1 Ebrill 2018 gan fod angen eglurder ar y diwydiant er mwyn llywio cynllunio busnes a'r gweithlu. Cyflawnwyd hynny.

Cynhaliwyd y seithfed cyfarfod ar 15 Chwefror 2018.

3.15 Gwnaeth y Panel drafod y gwaith ar yr astudiaeth a gomisiynwyd ar Wybodaeth am y Farchnad Lafur, a fyddai'n llywio gwaith y Panel.. Roedd hyn yn datblygu tuag at adrodd yn ôl ar ddiwedd mis Ebrill. Roedd Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant y Panel wedi trafod hyn a'r ysgogiad dros gofnodi datblygiad proffesiynol parhaus yn ei gyfarfod diwethaf ac roedd gwaith yn parhau ar hynny.

3.16 Roedd trafodaeth am yr awgrym i gomisiynu papur gan economegydd annibynnol ar iechyd cyfredol y sector amaethyddiaeth yn ogystal ag asesu'r heriau a'r cyfleoedd mae'r diwydiant yn eu hwynebu. Gwnaeth y Panel ystyried pwy allai ymgysylltu i wneud hyn, y costau fyddai ynghlwm, a pha fath o wybodaeth arbenigol oedd ei angen. Gwnaethant gytuno y byddai angen dull gweithredu diduedd ac y dylai'r data dibynadwy hysbys ffurfio sylfaen y papur. Byddai papur o'r fath yn ychwanegu at y wybodaeth a oedd eisoes yn cael ei chasglu er mwyn llywio gwaith y Panel yn ystod yr haf.

3.17 Prif ffocws y Panel ar gyfer y cyfarfod hwn oedd archwilio'r posibiladau ar gyfer diweddarau a symleiddio gorchmynion cyflogau amaethyddol. Byddai "moderneiddio" gorchmynion cyflogau amaethyddol yn cynnwys ystyried a yw strwythur a chynnwys cyfredol gorchmynion cyflogau amaethyddol yn dal i fod yn addas at y diben yn 2018 ac ar gyfer y dyfodol. Byddai'r Panel hefyd yn cyflwyno cynigion ar gyfer newid, gan ategu pob un gyda'r sail resymegol ar gyfer y meddylfryd y tu ôl iddo.

3.18 Gofynnwyd i'r aelodau ystyried eu dull gweithredu o ran newid gorchmynion i wella darpariaethau ar gyfer pob graddfa a dod â syniadau/awgrymiadau i'r cyfarfod Panel nesaf. Gwnaeth y Panel dderbyn y gallai cyflwyno gorchmynion yn llai rheolaidd na bob blwyddyn fod yn fuddiol a chaniatáu mwy o amser ar gyfer ystyriaeth. Roedd yr aelodau i ystyried pa ddarpariaethau fyddai angen eu cynnwys mewn Gorchmyn i barhau am ddwy flynedd. Roedd y syniadau cychwynnol ar gyfer mabwysiadu dull gweithredu tebyg i'r hyn a ddefnyddir mewn sectorau eraill o'r economi, sef cynnwys darpariaethau a fyddai'n nodi cyfyngiadau amser – e.e. cyfraddau x ar gyfer un flwyddyn wedi'u dilyn gan gyfradd y ar gyfer amser dilynol.

3.19 Gofynnwyd am awgrymiadau manwl ar gyfer y cyfarfod nesaf. Roedd y darpariaethau a nodwyd yn cynnwys:

- eglurhad ar statws cyflogaeth pobl ifanc / aelodau teulu / partneriaid sy'n gweithio ar fferm
- y diffiniad o "waith fferm traddodiadol", a oedd wedi newid ac roedd angen ei ddiweddarau; y diffiniadau ar gyfer y chwe gradd a oedd angen eu haildiffinio efallai yng ngoleuni newidiadau yn y diwydiant
- a oedd y lwfansau fel y lwfans cŵn a'r lwfans llety wedi ei osod yn erbyn wedi'u gosod ar y cyfraddau priodol?
- a oedd angen ailddiffinio "goruchwylwr/rheolwr"? Tynnwyd sylw at yr angen i feini prawf penodol fel "gweithio gyda pheiriannau/anifeiliaid" gael cyfeiriad cliriach.

3.20 Cytunodd aelodau'r Panel fod angen gwneud rhywbeth i egluro materion. Roedd y Panel yn teimlo eu bod bellach mewn sefyllfa i ddysgu o'u profiad fel Panel

ac roeddent yn barod i gymhwyso eu harbenigedd sylweddol i'r cwestiynau hyn. Roedd y Panel yn deall bod rhai materion fel y lwfansau llety wedi eu gosod yn erbyn yn ymddangos mewn deddfwriaeth arall ac roedd angen trafodaethau i gynnwys y gofynion hynny.

Cynnydd gyrfao / caffael sgiliau

3.21 Roedd pryder ynglŷn â sgiliau'n cael eu caffael gan weithwyr ac roedd angen dull gweithredu ffurfiol er mwyn sicrhau bod trefniadau yn glir. Credwyd bod angen i gyflogwr gytuno ar raglen hyfforddiant. Gallai'r gorchmynion gynnwys darpariaeth ar gyfer hyn.

Gwnaeth y Panel gydnabod y byddai cadw cofnodion a gweithwyr yn cael contract cyflogaeth ysgrifenedig fel mater o drefn arferol yn helpu i egluro disgwyliadau. Gwelwyd bod cynllunio datblygiad personol yn ddefnyddiol ar gyfer y gweithiwr unigol a'r sefydliad neu fusnes.

4. Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017

4.1 Gwnaeth Gorchymyn 2017 gadw strwythur graddoli'r gorchymyn blaenorol, er mwyn sicrhau parhad a chynnal y cymhelliant i gynyddu lefelau sgiliau. Mae'r Gorchymyn yn cynnwys atodlenni a ddiweddarwyd o ddyfarniadau perthnasol a thystysgrifau cymhwysedd, sy'n helpu i bennu gradd y gweithiwr. Paratowyd yr atodlenni gan Lantra yng ngoleuni'r newidiadau i'r fframwaith addysgiadol a theitlau'r tystysgrifau.

4.2 Penderfynodd y Panel drwy bleidlais fwyafrifol i gadarnhau'r cynigion a gyflwynwyd i Orchymyn Cyflogau 2017. Roedd aelodau'r Panel eisiau bod yn fwy sicr o gyfraddau'r Isafswm Cenedlaethol / Cyflog Byw ar gyfer 2018 nag yr oeddent ac awgrymwyd y gallai'r cynigion newid rywfaint pan fo'r lefelau terfynol yn dod yn fwy hysbys. Gwelsant nad oedd amseriad cyhoeddiadau o'r fath a'r broses o graffu ar gynigion tuag at wneud rheoliadau yn hawdd eu cydgordio. Wedyn, gwnaeth cynghorwyr cyfreithiol y Panel ddrafftio gorchymyn cyflogau amaethyddol ar gyfer 2018 yn unol â chynigion y Panel.

4.3 Gwnaeth Cadeirydd y Panel gyflwyno Gorchymyn drafft yn amlinellu cynigion y Panel i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru gyda'r bwriad i'r gorchymyn ddod i rym ar 1 Ebrill 2018 gan fod angen eglurder ar y diwydiant er mwyn llywio cynllunio busnes a gweithlu. Cyflawnwyd hynny.

Canllawiau

4.4 Bwriedir i'r canllawiau ar orchmynion cyflogaeth gael eu diweddarau yn ôl y galw yn dilyn y bwch yn 2017. Gwahoddir awgrymiadau ar gyfer gwybodaeth ychwanegol i'w chynnwys mewn fersiwn a ddiweddarwyd o'r canllawiau neu ar gyfer eglurhad pellach.

Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol yn y dyfodol

4.5 Yn unol â Deddf 2014, mae'n ofynnol i'r Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth baratoi gorchmynion cyflogau amaethyddol yn y dyfodol ar ffurf ddrafft, ymgynghori ar y rhain, a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo. Bydd gorchmynion cyflogau newydd yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae gweithdrefn negyddol yn golygu y bydd y gorchmynion yn cael eu llofnodi a'u gosod gerbron y Cynulliad ac ni fyddant fel arfer yn dod i rym am o leiaf 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gosod.

5. Yr Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant

5.1 Mae Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) yn galluogi'r Panel i benodi is-bwyllgorau ac mae'n gosod dyletswydd statudol i sefydlu Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant parhaol. Mae'r is-bwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Mae dyletswydd statudol i gynnwys Lantra a'r CFFI fel aelodau. Mae'n cael ei gadeirio gan aelod annibynnol ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o blith cynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr yn ogystal ag arbenigwyr ar ddatblygu sgiliau. Rhestrir yr aelodau presennol yn **Atodiad 1**.

5.2 Sefydlwyd yr is-bwyllgor yn 2016. Cynhaliwyd cyfarfod ym mis Tachwedd 2016 a mis Mawrth a mis Rhagfyr 2017 yn ogystal â mis Chwefror 2018. Gwnaeth yr is-bwyllgor ddechrau ar eu gwaith drwy ystyried adroddiadau gwahanol ar ddatblygu sgiliau a hyfforddiant yn y sector er mwyn llywio eu gwaith. Aethant ati'n syth i roi cychwyn i waith i ymchwilio i anghenion y sector ac adolygu ymchwil, adroddiadau a llenyddiaeth berthnasol i lywio eu barn ac adeiladu cyngor cadarn i ysgogi gwelliannau.

5.3 Gwnaeth yr is-bwyllgor hefyd ystyried cynigion i gaffael Gwybodaeth am y Farchnad Lafur i lywio eu gwaith yn ogystal â gwella datblygiad proffesiynol parhaus yn y diwydiant. Bydd yr ymchwil ar y farchnad lafur yng Nghymru yn cael ei hadrodd yn ôl ddiwedd mis Ebrill 2018. Mae aelodau o'r is-bwyllgor wedi gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr i wella trefniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir gan Gyswllt Ffermio.

5.4 Mae'r is-bwyllgor yn ystyried bod angen am ganllawiau cliriach ar y ddarpariaeth brentisiaeth yn y sector amaethyddol yng Nghymru. Maent yn bwriadu adrodd i'r Panel a gwneud argymhellion ar gamau gweithredu a ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gwelliant. Bydd hyn yn cynnwys llywio ystyriaethau'r Panel ar foderneiddio ac egluro Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol yn y dyfodol.

6. Crynodeb o faterion sy'n effeithio ar amaethyddiaeth

6.1. Yn ystod ail flwyddyn ei weithredu, roedd y Panel yn canolbwyntio ar wella sgiliau a datblygiad gyrfa o fewn y sector amaethyddol, ochr yn ochr â chynnal adolygiad o orchmynion isafswm cyflog amaethyddol. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

6.2 Gwelir bod prinder llafur a sgiliau yn heriau allweddol sy'n wynebu'r diwydiant, yn arbennig yn yr hinsawdd wleidyddol bresennol wrth i'r DU baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd ymhlith y sectorau sy'n elwa'n sylweddol ar argaeledd presennol gweithwyr mudol yn y DU. Mae'r ddibyniaeth ar weithwyr tramor, fel gweithwyr mudol Ewropeaidd, mewn prosesu bwyd yn arbennig o uchel yn y DU yn gyffredinol, gyda 40% o weithwyr wedi'u geni dramor a dros 20% o'r gweithwyr wedi'u cyflogi fel llafur mudol dros dro.

6.3 Ym marn y Panel, mae'n hanfodol sicrhau bod y sectorau amaethyddiaeth, garddwriaeth a phrosesu bwyd yng Nghymru yn parhau i fod â'r gweithlu ymroddedig angenrheidiol er mwyn iddynt barhau i lwyddo. Yn y dyfodol, bydd hi'n bwysig hyrwyddo'r sector fel opsiwn gyrfa deniadol a gwobrwyol er mwyn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dod i mewn i'r diwydiant. Bydd y ddibyniaeth ar weithlu a hyfforddwyd yn dda ac sy'n llawn cymhelliant yn parhau i fod yn hanfodol. Bydd mynediad i lafur mudol hefyd yn parhau'n opsiwn ar gyfer busnesau.

6.4 Bydd ymadawriad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn cyflwyno heriau a chyfleoedd, a gaiff eu hystyried gan y Panel yn eu proses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

7. Adolygiad Llywodraeth Cymru o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

7.1 Yn ystod gwaith craffu deddfwriaethol ar Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 wrth iddi symud ymlaen at ddod yn gyfraith, ystyriwyd y dylid cynnwys "cymal machlud" yn y Ddeddf fel y byddai darpariaethau yn dod i ben ar ôl cyfnod penodol o amser os nad oes dim yn cael ei wneud i'w cadw.

7.2 Mae Deddf 2014 yn nodi gofyniad statudol i adolygu effeithiolrwydd. Dywed Adran 13 fod yn rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf o fewn tair blynedd i roi Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf, sy'n golygu 30 Gorffennaf 2017. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i sylw'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Chwefror 2018.

7.3 Roedd yr adolygiad yn cynnwys gwybodaeth am effaith y Ddeddf ar weithwyr amaethyddol, cyflogwyr a'r sector amaethyddol yn gyffredinol. Cafodd ei llywio'n uniongyrchol gan yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adolygiad.

<http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11424/gen-ld11424-e.pdf>

<http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11424/gen-ld11424-w.pdf> -

7.4 Roedd hyn yn llywio'r ddadl yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar barhau gyda'r Ddeddf, a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2018. Cafodd y Gorchymyn i barhau effaith y Ddeddf ei gymeradwyo yn unol â gweithdrefnau'r Cynulliad a chan gydymffurfio ag Adran 14 y Ddeddf.

Atodiad 1

Panel Cyngtori ar Amaethyddiaeth Cymru – Aelodaeth

Mae'r Panel yn cynnwys saith aelod: pedwar cynrychiolydd o'r undebau (dau o Unite, un o'r FUW (Undeb Amaethwyr Cymru), ac un o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru), dau aelod annibynnol (a ddewisir drwy broses Penodiadau Cyhoeddus), a Chadeirydd annibynnol (a ddewisir drwy broses Penodiadau Cyhoeddus).

Aelodaeth 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018

Dr Lionel Walford	Annibynnol – Cadeirydd
Mr Bryan Godsell	Unite
Mr Ivan Monckton	Unite
Mr Darren Williams	Undeb Amaethwyr Cymru – FUW
Mr John Davies (tan fis Rhagfyr 2017)	Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru – NFU Cymru
Mr Will Prichard (o fis Ionawr 2018)	Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru – NFU Cymru
Mr Peter Rees	Annibynnol
Mr Stephen Hughson	Annibynnol

Is-bwyllgor Parhaol ar Ddatblygu Sgiliau a Hyfforddiant – Aelodaeth

Sefydlodd Panel Cyngtori ar Amaethyddiaeth Cymru ei Is-bwyllgor parhaol ar Ddatblygu Sgiliau a Hyfforddiant yn unol â Gorchymyn Panel Cyngtori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016.

Cyfarfu'r is-bwyllgor am y tro cyntaf ar 11 Tachwedd 2016. Mae'r aelodaeth yn cynnwys arbenigwyr o bob rhan o'r diwydiant. Maent yn cynnwys cynrychiolwyr undebau, academyddion ac arbenigwyr gydag ehangder o arbenigedd, gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion sgiliau a hyfforddiant yn y sector amaethyddiaeth, yn ogystal â chyfleoedd datblygu gyrfa. Mae yna aelodau cynrychioliadol o CFFl a Lantra fel y nodir yn y Gorchymyn.

Aelodaeth bresennol

Dr Lionel Walford	Cadeirydd Annibynnol
Mr Peter Rees	Annibynnol – addysg
Mr Stephen Hughson	Annibynnol – amaethyddiaeth
Mr Bryan Godsell	Cynrychiolydd Unite
Mr Ivan Monckton	Cynrychiolydd Unite
Kevin Thomas	Lantra
Cyfarwyddwr	CFFl Cymru – aelod o'r is-bwyllgor

Alun Elidyr Edwards	Undeb Amaethwyr Cymru – Addysg Amaethyddol FUW
David B Jones	Prif Weithredwr Coleg Cambria
Will Prichard	Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru)

Disgwylir i'r is-bwyllgor gyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn.

Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor ar Ddatblygu Sgiliau a Hyfforddiant:

<https://documents.hf.wales.gov.uk/id:A15861628/document/versions/published>

Gellir cysylltu â Rheolwr y Panel trwy'r ffyrdd canlynol:

Drwy'r post:

Rheolwr y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth

Adeiladau'r Llywodraeth

Spa Road East

Llandrindod

Powys

LD1 5HA

Drwy e-bost:

slmenquiries@wales.gsi.gov.uk

Atodiad 2

Dolenni i ddeddfwriaeth

Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/6/contents/enacted>

Mae'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaethau ar gyfer:

Sefydlu Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru

Gwneud gorchymnion sy'n gosod y telerau ac amodau ar gyfer pobl a gyflogir mewn amaethyddiaeth yng Nghymru (gweithwyr amaethyddol)

Gorfodi'r telerau ac amodau hynny

Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddiaeth (Cymru) 2014 (Parhau i Gael Effaith) 2018

<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/515/introduction/made>

Gorchymyn Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016

<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/255/made>

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu'r Panel fel corff cyngori annibynnol i Weinidogion Cymru. Swyddogaethau'r Panel yw hyrwyddo gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth, paratoi gorchymnion cyflogau amaethyddol ar ffurf ddrafft, ymgynghori ar orchymnion o'r fath i'w cyflwyno i Weinidogion Cymru, a chynghori Gweinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â'r sector amaethyddol yng Nghymru.

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2017

Gwnaed y Gorchymyn hwn ar 3 Tachwedd 2017 ond daeth yn weithredol o 1 Ebrill 2017.

<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/1058/made>

Y gorchymyn cyflogau amaethyddol cyfredol yw:

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018

<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/433/made>

Mae'r Gorchymyn hwn yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Dywed fod gweithwyr amaethyddol i gael eu cyflogi yn unol â'r telerau ac amodau sydd yn Rhannau 2 – 5 (Erthygl 3) ac mae'n pennu graddau a chategorïau gwahanol o weithiwr amaethyddol (Erthyglau 5 – 12).

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch isafsymiau cyfraddau cydnabyddiaeth ariannol sy'n rhaid eu talu i weithwyr amaethyddol (Erthygl 12, 13 ac 14) a darpariaethau eraill ar gyfer lwfansau.

Dywed Rhan 4 fod gan weithiwr amaethyddol hawl i dâl salwch amaethyddol mewn amgylchiadau penodol (Erthyglau 18 – 21) a chyfrifiad o'r swm (Erthygl 22).

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i amser o'r gwaith, gan gynnwys cyfnodau egwyl, gwyliau blynyddol a thâl gwyliau.

Mae Atodlen 4 (Erthygl 12) ar dudalen 55 yn dangos yr isafswm cyfraddau ar gyfer chwe gradd gweithwyr a phrentisiaid.

